OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 56 (Cy.11)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 372/2007 sy'n gosod terfynau ymfudiad trosiannol ar gyfer plastigyddion mewn gasgedi mewn caeadau y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd (OJ Rhif L92, 3.4.2007, t.9) ("Rheoliad y Comisiwn").

**2**. Mae'r Rheoliadau —

(a) yn dynodi'r cyrff sydd â'r ddyletswydd i orfodi'r Rheoliadau hyn a Rheoliad y Comisiwn (*rheoliad 3*);

(b) yn darparu bod mynd yn groes i ofynion Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn, sy'n darparu bod yn rhaid i gaeadau y mae ynddynt gasgedi a wnaed o ddefnyddiau plastig gydymffurfio â'r manylebau a geir yn yr Atodiad i'r Rheoliad hwnnw, yn dramgwydd, ac yn pennu beth yw mwyafswm y cosbau ar gollfarn (*rheoliad 4(1)(a) a (2)(a)*);

(c) yn darparu bod rhwystro unrhyw un sy'n gorfodi'r Rheoliadau hyn, neu fethu â rhoi iddo wybodaeth, neu fod rhoi iddo wybodaeth anwir yn dramgwydd diannod, ac yn pennu beth yw mwyafswm y cosbau ar gollfarn (*rheoliad 4(1)(b), (c) ac (ch) a (2)(b)*);

(ch) yn darparu y caiff unigolion sy'n gyfrifol am weithrediadau corff corfforaeth neu bartneriaeth Albanaidd eu herlyn ar y cyd am dramgwyddau a gyflawnwyd gan y corff hwnnw neu'r bartneriaeth honno (*rheoliad 5*);

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 56 (W.11)

# FOOD, WALES

## The Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Lid Gaskets) (Wales) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations, which apply in relation to Wales, provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No 372/2007 laying down transitional migration limits for plasticisers in gaskets in lids intended to come into contact with foods (OJ No. L92, 3.4.2007, p.9) ("the Commission Regulation").

**2**. The Regulations —

(a) designate the bodies having the duty to enforce these Regulations and the Commission Regulation (*regulation 3*);

(b) provide that it is an offence to contravene the requirements of Article 1 of the Commission Regulation, which provides that lids containing gaskets made of plastic materials must comply with the detailed specifications set out in the Annex to that Regulation, and specify the maximum penalties on conviction (*regulation 4(1)(a) and (2)(a)*);

(c) provide that it is a summary offence to obstruct, fail to give information to or give false information to anyone enforcing these Regulations and specify the maximum penalties on conviction (*regulation 4(1)(b),(c) and (d) and (2)(b)*);

(d) provide that individuals responsible for the actions of a corporate body or a Scottish partnership may be co-prosecuted for offences committed by that body or partnership (*regulation 5*);

(d) yn darparu ar gyfer erlyn person sy'n peri i dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn gael ei gyflawni gan berson arall, p'un a ddygir achos cyfreithiol yn erbyn y prif dramgwyddwr ai peidio (*rheoliad 6*);

(dd) yn pennu terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniad (*rheoliad 7*);

(e) yn darparu ar gyfer amddiffyniad i dramgwyddau o dan y Rheoliadau hyn o fod wedi arfer diwydrwydd dyladwy (*rheoliad 8*);

(f) yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn pan anfonir sampl i'w dadansoddi (*rheoliad 9*);

(ff) yn gwneud darpariaeth i sampl gyfeirio gael ei dadansoddi yn Labordy Cemegydd y Llywodraeth (*rheoliad 10*); ac

(g) yn cymhwyso darpariaethau penodol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn (*rheoliad 11*).

**3**. Mae asesiad effaith reoleiddiol llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.

(e) provide for the prosecution of a person who causes the commission of an offence under these Regulations by another person, whether or not proceedings are started against the principal offender (*regulation 6*);

(f) specify a time limit for commencing a prosecution (*regulation 7*);

(g) provide for a defence to offences under these Regulations of exercising due diligence (*regulation 8*);

(h) specify the procedure to be followed when sending a sample for analysis (*regulation 9*);

(i) make provision for a reference sample to be analysed by the Laboratory of the Government Chemist (*regulation 10*); and

(j) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 for the purposes of these Regulations (*regulation 11*).

**3**. A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business is available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 56 (Cy.11)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Ionawr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *16 Ionawr 2008* |
| *Yn dod i rym* | *8 Chwefror 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2)(c), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn

(**1**) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn y drefn honno o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 56 (W.11)

# FOOD, WALES

## The Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Lid Gaskets) (Wales) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *14 January 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *16 January 2008* |
| *Coming into force* | *8 February 2008* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(2)(c), 17(2), 26(1)(a) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**1**) and now vested in them(**2**).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European

(**1**) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), "the 1999Act". Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act and S.I. 2004/2990.

(**2**) Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 S.I. 1999/672). Those Functions were transferred to Welsh Ministers by section 162 and Schedule 11, paragraph 30 of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008, maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru'n unig a deuant i rym ar 8 Chwefror 2008.

### Dehongli

**2**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys y Trysorydd priodol y cyfeirir ato yn adran 5(1)(c) o'r Ddeddf (sy'n ymdrin â'r Deml Fewnol a'r Deml Ganol) nac awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") —

(a) mewn perthynas â dosbarth iechyd porthladd Llundain (o fewn yr ystyr a roddir i "London port health district" at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**2**) gan adran 7(1) o'r Ddeddf honno), Cyngor Cyffredin Dinas Llundain; a

(b) mewn perthynas ag unrhyw ddosbarth iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "caead" ("*lid*") yw caead o'r math a grybwyllir yn Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnforio wrth gynnal busnes o fan ac eithrio Aelod-wladwriaeth;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 372/2007 sy'n gosod terfynau ymfudiad trosiannol ar gyfer plastigyddion mewn gasgedi mewn caeadau y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd(**3**);

(**1**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

(**2**) 1984 p. 22.

(**3**) OJ Rhif L92, 3.4.2007, t.9. Cywirwyd croniclad 2 o'r Rheoliad gan gorigendwm, (OJ Rhif L97, 12.4.2007, t.70), a wnaeth fân gywiriad i ddyddiad sy'n rhan o enw un o offerynnau'r GE yn un o'r cronicladau.

Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**1**), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

### Title, application and commencement

**1**. These Regulations are called the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Lid Gaskets) (Wales) Regulations 2008, apply in relation to Wales and come into force on 8 February 2008.

### Interpretation

**2**.—(1) In these Regulations —

"the Act" ("*y Ddeddf* ") means the Food Safety Act 1990;

"the Commission Regulation" ("*Rheoliad y Comisiwn*") means Commission Regulation (EC) No. 372/2007 laying down transitional migration limits for plasticisers in gaskets in lids intended to come into contact with foods(**2**);

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig* ") means any person who is authorised in writing, either generally or specially, by a food authority or as the case may be a port health authority to act in matters arising under these Regulations;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") does not include the appropriate Treasurer referred to in section 5(1)(c) of the Act (which deals with the Inner Temple and the Middle Temple) nor a port health authority;

"import" ("*mewnforio*") means import in the course of a business from a place other than a Member State;

"lid" ("*caead*") means a lid of the type mentioned in Article 1 of the Commission Regulation;

"port health authority" ("*awdurdod iechyd porthladd*") means —

(a) in relation to the London port health district (within the meaning given to that phrase for the purposes of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(**3**) by section 7(1) of that Act), the Common Council of the City of London; and

(**1**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

(**2**) OJ No. L92, 3.4.2007, p.9. Recital 2 of the Regulation was corrected by a corrigendum, (OJ No. L97, 12.4.2007, p.70), which made a minor correction to a date forming part of the citation to an EC instrument in one of the recitals.

(**3**) 1984 c. 22.

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson a awdurdodir yn ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, gan awdurdod bwyd neu, yn ôl y digwydd, gan awdurdod iechyd porthladd, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd Cymraeg arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn cael ei ddefnyddio yn Rheoliad y Comisiwn yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad hwnnw.

**Gorfodi**

**3**. Dyletswydd pob awdurdod bwyd o fewn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ddosbarth yw gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn a Rheoliad y Comisiwn.

**Tramgwyddau a chosbau**

**4**.—(1) Bydd unrhyw berson sydd —

(a) yn mynd yn groes i ofynion Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn neu'n methu â chydymffurfio â hwy (gofynion yn ymwneud â chaeadau sydd wedi eu selio â gasgedi y mae ynddynt sylweddau plastigeiddio penodol);

(b) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;

(c) heb esgus rhesymol, yn methu â rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn neu Reoliad y Comisiwn ar waith unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall fod yn rhesymol i'r person hwnnw ofyn amdano neu amdani; neu

(ch) gan ymhonni ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a grybwyllwyd yn is-baragraff (c), yn rhoi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn o bwys,

yn euog o dramgwydd.

(2) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored —

(a) yn achos tramgwydd o dan baragraff (1)(a) —

(i) o'i gollfarnu ar dditiad, i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu i'r ddau;

(ii) o'i gollfarnu'n ddiannod, i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu i'r ddau;

(b) yn achos tramgwydd o dan baragraff 1(b), (c) neu (ch), o'i gollfarnu'n ddiannod, i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na thri mis neu i ddirwy nad yw'n uwch na lefel pump ar y raddfa safonol, neu i'r ddau.

(b) in relation to any port health district constituted by order under section 2(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984, a port health authority for that district constituted by order under section 2(4) of that Act.

(2) Any other expression used in these Regulations and in the Commission Regulation has the same meaning in these Regulations as it bears in the Commission Regulation.

**Enforcement**

**3**. It is the duty of each food authority within its area and each port health authority within its district to execute and enforce these Regulations and the Commission Regulation.

**Offences and penalties**

**4**.—(1) Any person who —

(a) contravenes or fails to comply with the requirements of Article 1 of the Commission Regulation (requirements relating to lids sealed with gaskets containing certain plasticising substances);

(b) intentionally obstructs any person acting in the execution of these Regulations;

(c) without reasonable excuse, fails to give to any person acting in the execution of these Regulations or the Commission Regulation any assistance or information which that person may reasonably require; or

(d) in purported compliance with any requirement mentioned in sub-paragraph (c), knowingly or recklessly supplies information that is false or misleading in any material particular,

is guilty of an offence.

(2) Anyone guilty of an offence under these Regulations is liable —

(a) in the case of an offence under paragraph (1)(a) —

(i) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or to a fine or both;

(ii) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding six months or to a fine not exceeding the statutory maximum or both;

(b) in the case of an offence under paragraph 1(b), (c) or (d), on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding level five on the standard scale or both.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (1)(c) i'w ddehongli fel ei bod yn ofynnol i unrhyw berson ateb unrhyw gwestiwn neu roi unrhyw wybodaeth pe byddai gwneud hynny'n ei hunan-argyhuddo.

**Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol neu bartneriaethau Albanaidd**

**5**.—(1) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau, a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol, wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad unrhyw un o'r canlynol, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw un o'r canlynol —

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath, bernir bod y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael achos cyfreithiol wedi ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi yn unol â hynny.

(2) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, a gyflawnwyd gan bartneriaeth Albanaidd, wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran partner, bernir bod y person hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael achos cyfreithiol wedi ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi yn unol â hynny.

**Tramgwyddau o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan drydydd person**

**6**. Pan fo tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei gyflawni gan unrhyw berson o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan ryw berson arall, bydd y person arall hwnnw yn euog o'r tramgwydd; a chaniateir i berson gael ei gyhuddo a'i gollfarnu o'r tramgwydd p'un a ddygir achos cyfreithiol yn erbyn y person a grybwyllwyd gyntaf ai peidio.

**Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau**

**7**. Ni chaniateir cychwyn unrhyw erlyniad am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i dair blynedd fynd heibio ers cyflawni'r tramgwydd neu ar ôl un flwyddyn fynd heibio ers i'r erlynydd ganfod y tramgwydd, p'un bynnag yw'r cynharaf.

**Amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy**

**8**.—(1) Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol, ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu ei gyflawni gan berson sydd o dan ei reolaeth, yn amddiffyniad.

(3) Nothing in paragraph (1)(c) is to be construed as requiring any person to answer any question or give any information if to do so might incriminate him or her.

**Offences by corporate bodies or Scottish partnerships**

**5**.—(1) Where an offence under these Regulations which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of or to be attributable to any neglect on the part of —

(a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or

(b) any person purporting to act in such a capacity, that person as well as the body corporate will be deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where an offence under these Regulations which has been committed by a Scottish partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of or to be attributable to any neglect on the part of a partner, that person as well as the partnership shall be deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

**Offences due to the act or default of a third party**

**6**. Where the commission by any person of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person, that other person will bel be guilty of the offence; and a person may be charged with and convicted of the offence whether or not proceedings are taken against the first mentioned person.

**Time limit for prosecutions**

**7**. No prosecution for an offence under these Regulations is to be begun after the expiry of three years from the commission of the offence or one year from its discovery by the prosecutor, whichever is the earlier.

**Defence of due diligence**

**8**.—(1) In any proceedings for an offence under these Regulations it will, subject to paragraph (4), be a defence for the person accused to prove that he or she took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence by himself or herself or by a person under his or her control.

(2) Heb ragfarn yn erbyn natur gyffredinol paragraff (1), dylid cymryd bod person a gyhuddir o dramgwydd o dan reoliad 4(1)(a), ac na wnaeth —

(a) paratoi'r caead yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni mewn cysylltiad ag ef; na

(b) ei fewnforio i'r Deyrnas Unedig,

wedi profi'r amddiffyniad a ddarparwyd gan baragraff (1) os yw'n bodloni gofynion paragraff (3).

(3) Bydd person yn bodloni gofynion y paragraff hwn os yw'n profi —

(a) bod y tramgwydd wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan berson arall nad oedd o dan ei reolaeth, neu o ganlyniad i ddibynnu ar wybodaeth a gyflenwyd gan y cyfryw berson;

(b) nad rhoi ar y farchnad o dan ei enw neu ei farc ef oedd y weithred o roi ar y farchnad yr honnwyd ei bod yn dramgwydd;

(c) y naill neu'r llall o'r canlynol —

(i) ei fod wedi gwneud ar y caead o dan sylw bob gwiriad o'r fath a oedd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau, neu

(ii) ei bod yn rhesymol iddo yn yr holl amgylchiadau ddibynnu ar wiriadau a wnaed gan y person a gyflenwodd iddo'r caead o dan sylw; ac

(ch) nad oedd yn gwybod, pan gyflawnwyd y tramgwydd, y byddai ei weithred neu ei ddiffyg gweithred yn gyfystyr â thramgwydd o dan reoliad 4(1)(a) ac nad oedd ganddo reswm dros amau hynny.

(4) Os bydd honni bod y tramgwydd wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred gan berson arall, neu os bydd dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, yn rhan o'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos, ni fydd hawl gan y sawl a gyhuddir, heb ganiatâd y llys, i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw oni bai—

(a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawiad; a

(b) pan fo'r sawl a gyhuddir wedi ymddangos gerbron y llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig o'r blaen, o fewn un mis i'r ymddangosiad cyntaf hwnnw gan y sawl a gyhuddir, ei fod wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynydd yn rhoi'r cyfryw wybodaeth ag a oedd yn ei feddiant bryd hynny ac sy'n enwi'r person arall hwnnw neu'n helpu i'w enwi.

(2) Without prejudice to the generality of paragraph (1), a person accused of an offence under regulation 4(1)(a) who did not —

(a) prepare the lid in respect of which the offence is alleged to have been committed; nor

(b) import it into the United Kingdom,

is to be taken to have established the defence provided by paragraph (1) if he or she satisfies the requirements of paragraph (3).

(3) A person satisfies the requirements of this paragraph if he or she proves —

(a) that the commission of the offence was due to the act or default of some other person who was not under his or her control, or to reliance on information supplied by such a person;

(b) that the placing on the market of which the alleged offence consisted was not a placing on the market under his or her name or mark;

(c) that either —

(i) he or she carried out all such checks of the lid in question as were reasonable in all the circumstances, or

(ii) it was reasonable in all the circumstances for him or her to rely on checks carried out by the person who supplied him or her with the lid in question; and

(d) that he or she did not know and had no reason to suspect at the time the offence was committed that his or her act or omission would amount to an offence under regulation 4(1)(a).

(4) If in any case the defence provided by paragraph (1) involves the allegation that the commission of the offence was due to the act or default of another person, or to reliance on information supplied by another person, the person accused will not without leave of the court be entitled to rely on that defence unless —

(a) at least seven clear days before the hearing; and

(b) where he or she has previously appeared before the court in connection with the alleged offence, within one month of his or her first such appearance, he or she has served on the prosecutor a written notice giving such information identifying or assisting in the identification of that other person as was then in his or her possession.

**Y weithdrefn i'w dilyn pan fydd sampl i'w dadansoddi**

**9**.—(1) Bydd swyddog awdurdodedig sydd wedi caffael sampl o dan adran 29 o'r Ddeddf ac sydd o'r farn y dylai gael ei dadansoddi yn rhannu'r sampl yn dair rhan.

(2) Os cynwysyddion wedi eu selio yw cynnwys y sampl ac y byddai eu hagor, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn rhwystr i'w dadansoddi'n briodol, bydd y swyddog awdurdodedig yn rhannu'r sampl yn rhannau drwy rannu'r cynwysyddion yn dri lot, ac mae pob lot i'w drin fel pe bai'n rhan.

(3) Bydd y swyddog awdurdodedig —

(a) os bydd angen gwneud hynny, yn gosod pob rhan mewn cynhwysydd addas ac yn ei selio;

(b) yn marcio pob rhan neu bob cynhwysydd;

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn rhoi un rhan i'r perchennog ac yn ei hysbysu'n ysgrifenedig y bydd y sampl yn cael ei dadansoddi;

(ch) yn cyflwyno un rhan i'w dadansoddi yn unol ag adran 30 o'r Ddeddf; ac

(d) yn cadw un rhan i'w chyflwyno yn y dyfodol o dan reoliad 10.

**Dadansoddi eilaidd gan Gemegydd y Llywodraeth**

**10**.—(1) Pan fydd sampl wedi ei chadw o dan reoliad 9 ac —

(a) y bwriedir dwyn achos cyfreithiol yn erbyn person neu fod achos cyfreithiol wedi ei gychwyn yn ei erbyn am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn; a

(b) bod yr erlyniad yn bwriadu dwyn fel tystiolaeth ganlyniad y dadansoddi a grybwyllir uchod,

mae paragraffau (2) i (7) yn gymwys.

(2) O ran y swyddog awdurdodedig —

(a) caiff o'i wirfodd, neu

(b) bydd —

(i) os bydd yr erlynydd yn gofyn iddo wneud hynny (os person ac eithrio'r swyddog awdurdodedig yw'r erlynydd),

(ii) os bydd y llys yn gorchymyn felly, neu

(iii) (yn ddarostyngedig i baragraff (6)) os bydd y diffynnydd yn gofyn iddo wneud hynny,

yn anfon y rhan a gadwyd o'r sampl at Gemegydd y Llywodraeth i'w dadansoddi.

(3) Bydd Cemegydd y Llywodraeth yn dadansoddi'r rhan a anfonir ato o dan baragraff (2) ac yn anfon at y swyddog awdurdodedig dystysgrif yn nodi'n benodol beth yw canlyniad y dadansoddiad.

**Procedure where a sample is to be analysed**

**9**.—(1) An authorised officer who has procured a sample under section 29 of the Act and who considers it should be analysed will divide the sample into three parts.

(2) If the sample consists of sealed containers and opening them would, in the opinion of the authorised officer, impede a proper analysis, the authorised officer will divide the sample into parts by putting the containers into three lots, and each lot is to be treated as being a part.

(3) The authorised officer will —

(a) if necessary place each part in a suitable container and seal it;

(b) mark each part or container;

(c) as soon as reasonably practicable, give one part to the owner and notify him or her in writing that the sample will be analysed;

(d) submit one part for analysis in accordance with section 30 of the Act; and

(e) retain one part for future submission under regulation 10.

**Secondary analysis by the Government Chemist**

**10**.—(1) Where a sample has been retained under regulation 9 and —

(a) proceedings are intended to be or have been commenced against a person for an offence under these Regulations; and

(b) the prosecution intends to adduce as evidence the result of the analysis mentioned above,

paragraphs (2) to (7) apply.

(2) The authorised officer —

(a) may of his or her own volition; or

(b) will —

(i) if requested by the prosecutor (if a person other than the authorised officer),

(ii) if the court so orders, or

(iii) (subject to paragraph (6)) if requested by the defendant,

send the retained part of the sample to the Government Chemist for analysis.

(3) The Government Chemist will analyse the part sent to him or her under paragraph (2) and send to the authorised officer a certificate specifying the result of the analysis.

(4) Bydd unrhyw dystysgrif a roddir gan Gemegydd y Llywodraeth yn cael ei llofnodi ganddo neu ar ei ran, ond caniateir i unrhyw berson wneud y dadansoddiad o dan gyfarwyddyd y person sy'n llofnodi'r dystysgrif.

(5) Bydd y swyddog awdurdodedig cyn gynted ag y bydd y dystysgrif wedi dod i law yn cyflenwi copi o dystysgrif Cemegydd y Llywodraeth i'r erlynydd (os person ac eithrio'r swyddog awdurdodedig yw'r erlynydd) a'r diffynnydd.

(6) Os gwneir cais o dan baragraff (2)(b)(iii) caiff y swyddog awdurdodedig roi hysbysiad ysgrifenedig i'r diffynnydd yn gofyn iddo dalu ffi a bennir yn yr hysbysiad i glirio rhan neu'r cyfan o ffi Cemegydd y Llywodraeth am gyflawni'r swyddogaethau o dan baragraff (3), ac os na fydd y diffynnydd yn cytuno i dalu'r ffi a bennir yn yr hysbysiad caiff y swyddog awdurdodedig wrthod cydymffurfio â'r cais.

(7) Yn y rheoliad hwn mae "diffynnydd" ("*defendant*") yn cynnwys diffynnydd arfaethedig.

**Cymhwyso gwahanol adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990**

**11**. Mae darpariaethau canlynol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl);

(b) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(c) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

**Diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990**

**12**. Yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(**1**), yn Atodlen 1 (darpariaethau nad yw'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddynt), ar y diwedd, ychwaneger enw a chyfeirnod y Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1990/2463

(4) Any certificate given by the Government Chemist will be signed by him or her or on his or her behalf, but the analysis may be carried out by any person under the direction of the person who signs the certificate.

(5) The authorised officer will immediately on receipt supply the prosecutor (if a person other than the authorised officer) and the defendant with a copy of the Government Chemist's certificate.

(6) Where a request is made under paragraph (2)(b)(iii) the authorised officer may give notice in writing to the defendant requesting payment of a fee specified in the notice to defray some or all of the Government Chemist's charges for performing the functions under paragraph (3), and in the absence of agreement by the defendant to pay the fee specified in the notice the authorised officer may refuse to comply with the request.

(7) In this regulation "defendant" includes a prospective defendant.

**Application of various sections of the Food Safety Act 1990**

**11**. The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof are to be construed as a reference to these Regulations —

(a) section 3 (presumptions that food intended for human consumption);

(b) section 30(8) (which relates to documentary evidence);

(c) section 44 (protection of officers acting in good faith).

**Amendment of the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990**

**12**. In the Food Safety (Sampling and Qualifications) Regulations 1990(**1**), in Schedule 1 (provisions to which those Regulations do not apply), at the end add the title and reference of these Regulations.

(**1**) S.I. 1990/2463

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers.

14 Ionawr 2008

14 January 2008

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 56 (Cy.11)

## BWYD, CYMRU

Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 56 (W.11)

## FOOD, WALES

The Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Lid Gaskets) (Wales) Regulations 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W240/02/08 ON